RTPI

mediation of space · making of place
cyd drefnu gofod · creu cynefin

January 2011

Shaping the Future of Wales: Manifesto for Planning

The RTPI, with a membership of around 23,000 (1,100 in Wales), is the champion of planning and the planning profession and works to promote the role and practice of spatial planning for the public benefit.

This Manifesto sets out the key issues for Wales identified by RTPI Cymru and its members and makes recommendations for all working within the planning system and particularly the next Welsh Assembly Government.

RTPI Cymru is committed to working with the next Assembly Government to positively promote a planning system which works for the public good, balancing economic, social and environmental interests to establish and maintain community wellbeing.

I hope that you find this Manifesto of use and that you will be able to support the recommendations.

If you would like to discuss the detail of the Manifesto, e-mail RTPI Cymru's National Director, Roisin Willmott: walespolicy@rtpi.org.uk or telephone: 029 2047 3923.

Yours,

Anna Prescott, Chair RTPI Cymru

Ionawr 2011

Llywio Dyfodol Cymru: Maniffesto Cynllunio

Mae'r RTPI, sydd ag aelodaeth o ryw 23,000 (1,100 yng Nghymru), yn bencampwr dros gynllunio a'r proffesiwn cynllunio. Mae'n gweithio i hyrwyddo rôl cynllunio gofodol a'i arferion er lles y cyhoedd.

Y mae'r Maniffesto hwn, sydd wedi ei ddatblygu gan RTPI Cymru a'i aelodau, yn gosod allan ein barn ar y materion o bwys yn y sustem gynllunio. Y mae hefyd yn argymell nifer o weithrediadau ar gyfer y rhai sydd yn gweithio yn y sustem honno ac yn arbennig i'r rhai a fydd yn ffurfio'r Llywodraeth Cynulliad nesaf.

Mae RTPI wedi ymrwymo i gydweithio â Llywodraeth nesaf y Cynulliad i fynd ati'n gadarnhaol i hyrwyddo system gynllunio sy'n gweithio er lles y cyhoedd, gan gydbwyso buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol er mwyn sefydlu a chynnal lles cymunedol.

Mawr obeithiaf y byddwch yn gweld rhinwedd yn y Maniffesto hwn ac y byddwch yn gallu ei gefnogi"

Os hoffech drafod manylion y Maniffesto e-bostiwch Cyfarwyddydd Cenedlaethol RTPI Cymru Roisin Willmott: walespolicy@rtpi.org.uk neu ffoniwch 029 2047 3923.

Yn gywir,

Anna Prescott, Cadeirydd RTPI Cymru

Shaping the Future of Wales

RTPI
mediation of space · making of place
cyd drefnu gofod · creu cynefin

Llywio Dyfodol Cymru

Manifesto for Planning

Royal Town Planning Institute in Wales (RTPI Cymru)

Now, more than ever before, it is the planning system that guides how we live, work and relax. Planning is about creating places, it shapes our villages, towns, cities and countryside and is vital to the nation's economic well-being.

The Welsh planning system has earned considerable respect for its approach. The duty to promote sustainable development has served the planning system well in Wales. Planning Policy Wales – the central national planning policy framework – embeds sustainable development in planning, and this must continue to be its starting point.

When planning goes wrong, there are implications for everyone. A good planning system is essential to enable, and not hinder, sustainable economic growth, community well-being, and a healthy environment.

Elected representatives and planners, working together, seek to strike the right balance between the rights of individuals with the needs of the wider community. This can sometimes prove contentious but the system we have manages this effectively and democratically for the benefit of everyone.

Maniffesto Cynllunio

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru)

Heddiw, yn fwy nag erioed o'r blaen, mae'r system gynllunio yn llywio'r ffordd yr ydym yn byw, yn gweithio ac yn ymlacio. Mae cynllunio yn ymwneud â chreu lleoedd. Mae'n dylanwadu ar ein pentrefi, trefi, dinasoedd a chefn gwlad ac mae'n hanfodol er lles economaidd y genedl.

Mae system gynllunio Cymru wedi ennyn cryn barch. Mae'r ddyletswydd i ddatblygu'n gynaliadwy wedi bod o fantais i'r system gynllunio yng Nghymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru – sef y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol canolog – yn rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd cynllunio, a rhaid i hyn barhau.

Pan aiff pethau o chwith wrth gynllunio, mae'r goblygiadau'n effeithio ar bawb. Mae system gynllunio dda yn hanfodol er mwyn galluogi, a pheidio â rhwystro, twf economaidd cynaliadwy, lles cymunedol ac amgylchedd iach.

Mae cynllunwyr a chynrychiolwyr etholedig yn cydweithio i sicrhau cydbwysedd cywir rhwng hawliau unigolion ac anghenion y gymuned ehangach. Gall hyn fod yn asgwrn cynnen weithiau, ond mae'r system sydd gennym yn rheoli hyn yn effeithiol ac mewn ffordd ddemocrataidd, a hynny er lles pawb.

Building on the Existing Planning System to the Benefit of Wales

The challenge for the next government in Wales will be to build on strong foundations and the skills and experience of the planning profession, stakeholders and the development industry, as well as to involve local people in a meaningful way to shape the right decisions for all our futures.

RTPI Cymru does not believe there is any need for significant change, but recommends the following areas where improvements would be beneficial:

1. **Promote appreciation of the planning system as an essential tool for society**
2. **Retain Climate change as a key priority**
3. **Retain the Local Development Plan System**
4. **Promote the culture of pro-active planning to enable community wellbeing and sustainable economic growth**
5. **Ensure planning supports sustainable economic growth, for long term benefits**
6. **Review and improve the Wales Spatial Plan to ensure the right infrastructure is in place for development**
7. **Ensure all decisions on renewable energy projects are devolved to Wales**
8. **Improve the health and use of the Welsh language**
9. **Provide resources for planning to perform effectively for the long term**
10. **Retain independent examination of planning decisions and plans**

Adeiladu ar y System Gynllunio Bresennol er Lles Cymru

Mae her yn wynebu llywodraeth nesaf Cymru, sef adeiladu ar seiliau cadarn, sgiliau a phrofiad y proffesiwn cynllunio, rhanddeiliaid a'r diwydiant datblygu, yn ogystal â chynnwys pobl leol mewn ffordd ystyrlon er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'n rhaid gwneud y penderfyniadau iawn er lles ein dyfodol ni i gyd.

Mae RTPI Cymru o'r farn nad oes angen unrhyw newid sylweddol, serch hyn rydym yn argymell y byddai'n fuddiol gwella'r meysydd canlynol:

1. **Hyrwyddo gwerthfawrogiad o'r system gynllunio fel offeryn hanfodol ar gyfer y gymdeithas**
2. **Parhau i drin newid yn yr hinsawdd fel blaenoriaeth allweddol**
3. **Cadw System y Cynllun Datblygu Lleol yng Nghymru**
4. **Hyrwyddo diwylliant o gynllunio rhagweithiol er mwyn hybu lles cymunedol a thwf economaidd cynaliadwy**
5. **Sicrhau bod cynllunio yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, er mwyn sicrhau buddion hirdymor**
6. **Adolygu a gwella Cynllun Gofodol Cymru er mwyn sicrhau bod y seilwaith cywir yn ei le ar gyfer datblygu**
7. **Sicrhau bod yr holl benderfyniadau am brosiectau ynni adnewyddadwy yn cael eu datganoli i Gymru**
8. **Gwella cyflwr y Gymraeg a'r defnydd ohoni**
9. **Darparu adnoddau er mwyn i gynllunio berfformio'n effeithiol yn hirdymor**
10. **Cynnal y drefn o arholi cynlluniau a phenderfyniadau cynllunio yn annibynnol**

Promote appreciation of the planning system as an essential tool for society

Planning is often seen by users as a bureaucratic control mechanism that permits or refuses permission for development. Rather, RTPI Cymru sees it as society's essential tool for making successful and enjoyable places that provide a high quality of life, economic growth and environmental protection. We call for **recognition of planning as a valued profession** in the delivery of quality places and to promote wellbeing amongst communities in Wales. The planner's role is to assess the social, economic and environmental features of an area and promote the positive opportunities that come forward, working with organisations, other professions, politicians and the private sector to deliver a better future.

Retain climate change as a key priority

Climate change presents society with an urgent need to address the impacts of development and individual lifestyle choices. Planners recognise the long term threats posed by climate change and the need to take action now to mitigate and adapt to changes. We need intelligent solutions, both technical and policy based, to deal with climate change in terms of both reducing our greenhouse gas emissions and ensuring development is resilient to environmental changes.

In facing the challenges posed by climate change, planning will play a central role in providing the framework for adaptation and mitigation. Increasing pressure will inevitably be placed on the planning system to improve its consideration of water management issues; reducing flood risk and managing increasingly scarce water resources. It has an important role to play in **water and flood risk management**. It can also focus community action and define opportunities for **renewable energy** and help ensure energy saving targets are embedded in new and existing development. The opportunities provided by the established planning system must be exploited to their maximum.

The planning process is not only the means by which objectives can be balanced in delivering development, but it can help demonstrate to existing communities the importance of action on climate change and influence

1 Hyrwyddo gwerthfawrogiad o'r system gynllunio fel offeryn hanfodol ar gyfer y gymdeithas

Mae defnyddwyr yn aml yn gweld y maes cynllunio fel mecanwaith rheoli biwrocrataidd sydd naill ai'n rhoi neu'n gwrthod caniatâd ar gyfer datblygu. Mae RTPI Cymru yn ei weld yn hytrach fel offeryn hanfodol y gymdeithas a all greu lleoedd llwyddiannus i bobl eu mwynhau. Mae'r lleoedd hyn yn cynnig ansawdd bywyd da, twf economaidd a diogelwch amgylcheddol. Rydym ni'n galw i **gynllunio gael ei gydnabod fel proffesiwn y rhoddir gwerth arno** wrth greu lleoedd o ansawdd ac wrth hyrwyddo lles cymunedau yng Nghymru. Rôl y cynlluniwr yw asesu nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal a hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol sy'n dod i'r amlwg, gan gydweithio â sefydliadau, proffesiynau eraill, gwleidyddion a'r sector preifat er mwyn creu dyfodol gwell.

2 Parhau i drin newid yn yr hinsawdd fel blaenoriaeth allweddol

Mae newid yn yr hinsawdd yn dangos i gymdeithas bod angen mynd i'r afael ar frys ag effeithiau datblygu a dewisiadau unigolion o ran eu dull o fyw. Mae cynllunwyr yn cydnabod y bygythiadau hirdymor sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, a'r angen i gymryd camau yn awr i liniaru'r effeithiau ac addasu i newidiadau. Mae angen atebion deallus arnom, a'r rheiny'n atebion technegol ac yn seiliedig ar bolisi, er mwyn delio â newid yn yr hinsawdd yn nhermau lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr a sicrhau bod datblygu yn gallu gwrthsefyll newidiadau amgylcheddol.

Bydd cynllunio yn chwarae rôl allweddol wrth wynebu'r heriau y mae newid yn yr hinsawdd yn eu cyflwyno, gan ddarparu'r fframwaith ar gyfer addasu a lliniaru. Mae'n anorfod y bydd mwy a mwy o bwysau yn cael ei roi ar y system gynllunio i roi mwy o ystyriaeth i faterion sy'n ymwneud â rheoli dŵr; lleihau'r risg o lifogydd a rheoli adnoddau dŵr cynyddol brin. Mae ganddi rôl bwysig i'w chwarae wrth **reoli risgiau dŵr a llifogydd**. Gall hefyd roi ffocws i gamau cymunedol a diffinio cyfleoedd ar gyfer **ynni adnewyddadwy** gan helpu i sicrhau bod targedau arbed ynni yn cael eu hymgorffori i ddatblygiadau presennol a datblygiadau newydd. Rhaid manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan y system gynllunio bresennol.

Mae'r proses gynllunio yn ffordd o gydbwyso amcanion wrth ddatblygu, ond yn fwy na hynny, gall helpu i ddangos i gymunedau presennol pa mor bwysig yw cymryd camau ar newid yn yr hinsawdd, a gall dylanwadu ar ymddygiad i liniaru neu fynd i'r afael â chanlyniadau newid yn yr hinsawdd. Rhaid neilltuo adnoddau ar gyfer cynllunio yng Nghymru er mwyn addasu i newid yn yr hinsawdd, a lliniaru ei effeithiau.

behaviour to mitigate or address its consequences. Planning in Wales must be resourced to make its contribution to adapting to and mitigating against climate change.

Integrated coastal and marine planning and management is needed to develop to maintain Wales' coastal areas and effectively adapt to climate change whilst protecting important marine and coastal natural habitats.

Agricultural self sufficiency and **local food production** have increasing importance with the effects of climate change; the planning system can help in ensuring the best land is protected and available for this use. Indeed the system we have in place has been built on the need to protect the best land for food production.

Retain the Local Development Plan System

The Welsh Local Development Plan (LDP) system is relatively new and whilst it has been slow to get moving, adopted plans are now coming through. These early plans are providing lessons for all involved and will help developing LDPs. Whilst there are opportunities to adjust the system and learn from experience, the planning profession and development industry in Wales have no appetite for the wholesale change of the LDP system. In fact we know that the system in Wales is far simpler and more effective than the system being applied in England. One of the main criticisms of the plan-led system rests on the fact that it has been changed too often to enable LPAs to maintain an up to date coverage of plans across Wales. We believe therefore that the LDP system should be retained, but we should learn lessons and hold a review during 2011/12 to draw these lessons out.

Key messages for the LDP system are the effective **early engagement** in the widest sense, including promoters of sites and their advisers, whether they are large scale developers or individual plot owners. Adding more stages to the process will only make plans less relevant when adopted. There is merit in reviewing the process to ensure plans can be updated quickly once adopted.

A fundamental component to the successful delivery of LDPs is the requirement for high quality **project management skills** and **leadership** from officers and members in LPAs. Those LPAs with high levels of these skills have been shown to move more quickly to adoption proving the case for more training investment.

Mae angen **cynllunio a rheoli morol ac arfordirol integredig** er mwyn datblygu a chynnal ardaloedd arfordirol Cymru ac addasu'n effeithiol i newid yn yr hinsawdd, tra ar yr un pryd, diogelu cynefinoedd morol ac arfordirol naturiol.

Mae **hunangynhaliaeth amaethyddol** a **chynhyrchu bwyd lleol** yn gynyddol bwysig o ran effeithiau newid yn yr hinsawdd; gall y system gynllunio helpu i sicrhau bod y tir gorau yn cael ei ddiogelu ac ar gael i'w ddefnyddio at y dibenion hyn. Yn wir, mae'r system sydd gennym ar waith wedi'i hadeiladu ar yr angen i ddiogelu'r tir gorau ar gyfer cynhyrchu bwyd.

3

Cadw system y Cynllun Datblygu Lleol

Mae system Cynllun Datblygu Lleol Cymru (CDLl) yn gymharol newydd ac er y bu'n araf i ennill ei blwyf, mae cynlluniau bellach yn cael eu mabwysiadu. Mae'r cynlluniau cynnar hyn yn cynnig gwersi i bawb sy'n ymwneud â chynllunio a bydd yn helpu CDLlau sydd wrthi'n cael eu datblygu. Er bod cyfleoedd i addasu'r system a dysgu o brofiad, ni cheir awydd yng Nghymru i newid y system CDLl yn gyfan gwbl. Yn wir, gwyddwn fod y system yng Nghymru yn symlach o lawer ac yn fwy effeithiol na'r system sydd ar waith yn Lloegr. Y brif feirniadaeth o'r system sy'n seiliedig ar y cynllun yw'r ffaith ei bod wedi'i newid yn rhy aml i Awdurdodau Cynllunio Lleol allu cadw cynlluniau cyfredol ledled Cymru. Credwn felly y dylid cadw'r system CDLl, ond rhaid dysgu gwersi a chynnal adolygiad yn ystod 2011/12 er mwyn rhoi'r hyn yr ydym yn ei ddysgu ar waith.

Y negeseuon allweddol ar gyfer y system CDLl yw mynd ati'n effeithiol i **ymgysylltu'n gynnar** â rhanddeiliaid, a hynny yn yr ystyr ehangaf, gan gynnwys hyrwyddwyr safleoedd a'u cynghorwyr, boed y rheiny'n ddatblygwyr graddfa-fawr neu'n berchnogion plotiau unigol. Bydd ychwanegu mwy o gamau i'r broses yn golygu bod y cynlluniau yn llai perthnasol pan gânt eu mabwysiadu. Mae gwerth mewn adolygu'r broses er mwyn sicrhau y gall cynlluniau gael eu diweddaru'n gyflym ar ôl eu mabwysiadu.

Un o'r elfennau sylfaenol sy'n hanfodol er mwyn cyflwyno Cynlluniau Datblygu Lleol yn llwyddiannus yw'r gofyniad am **sgiliau rheoli prosiect** o ansawdd uchel, yn ogystal ag **arweinyddiaeth** gan swyddogion ac aelodau Awdurdodau Cynllunio Lleol. Gwelwyd bod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol hynny sydd â lefelau uchel o'r sgiliau hyn yn mabwysiadu'r cynlluniau'n gyflymach, gan brofi bod achos dros fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant.

Promote the culture of pro-active planning

To achieve a sustainable Wales planning needs the appropriate tools and systems within which to work and to be recognised as proactive, and not regarded solely as a barrier.

Streamlining of the planning system to make it as efficient and effective as far as possible is required, albeit within the context of the requirements of UK and European Law, such as the Habitats Directive. The study undertaken by GVA Grimley on behalf of the Welsh Assembly Government on streamlining the planning system and the Assembly Government's response to its findings, have provided a positive way forward. We recommend that this programme, subject to consultation on the detailed proposals, is continued.

The planning process is becoming increasingly litigious with applicants and objectors more often resorting to legal challenge in trying to progress or block schemes through the planning system. This is indeed a real concern as planning is increasingly becoming more about process rather than making better places.

We believe that **development management** is the tool that enables communities to deliver their agreed LDP vision for their area. True development management is a seamless process that takes an identified project through from allocation and inception to completion. The shift to development management involves a culture change not just for local authorities but also for the development industry, planning consultants, consultees and other stakeholders. It depends upon thinking ahead and thinking through proposals, rather than planning by exception and appeal. RTPI Cymru would like to work with the Assembly Government to guide the profession on undertaking this culture change and encourages resources to be directed towards this activity.

Ensuring that people shape their **communities** is best served by strengthening the present system, not by any radical overhaul. Central and local government in Wales is not remote and given the scale of our Local Planning Authorities (LPAs) and close working with the Assembly, better and more effective citizen engagement could be facilitated by LPAs. We recognise that this takes particular communication skills in addition to detailed knowledge and understanding of the planning system and the character of local communities, including recognition of the increasingly diverse ethnic communities in Wales,

4

Hyrwyddo diwylliant o gynllunio rhagweithiol

Er mwyn sicrhau Cymru gynaliadwy, rhaid bod gan y maes cynllunio yr offer a'r systemau priodol yn eu lle, a rhaid iddo gael ei gydnabod fel rhywbeth rhagweithiol yn hytrach na chael ei weld fel dim ond rhwystr.

Rhaid mynd ati i **symleiddio'r system gynllunio** er mwyn ei gwneud mor effeithlon ac mor effeithiol ag sy'n bosibl, er bod yn rhaid gwneud hyn yng nghyd-destun gofynion Cyfraith Ewrop a'r DU megis y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae'r astudiaeth a gynhaliwyd gan GVA Grimley ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru ar symleiddio'r system gynllunio ac ymateb Llywodraeth y Cynulliad i'w ganfyddiadau wedi cynnig ffordd gadarnhaol ymlaen. Argymhellwn fod y rhaglen hon, yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ar y cynigion arfaethedig, yn mynd rhagddi.

Mae'r broses gynllunio yn dod yn fwyfwy cyfreithgar gydag ymgeiswyr a gwrthwynebwyr yn aml yn dewis herio'r broses mewn llys wrth geisio bwrw ymlaen â chynlluniau neu eu rhwystro. Mae hyn yn peri pryder go iawn gan fod a wnelo cynllunio mwyfwy â phroses nag â chreu lleoedd gwell.

Rydym ni'n credu bod **rheoli datblygu** yn offeryn sy'n galluogi cymunedau i wireddu eu gweledigaeth ar gyfer eu hardal mewn perthynas â'r CDLl. Mae rheoli datblygu go iawn yn broses ddi-dor sy'n tywys prosiect penodol o ddyraniad a dechreuad hyd at ei gwblhau. Mae'r shifft tuag at reoli datblygu yn cynnwys newid mewn diwylliant, nid yn unig ar gyfer awdurdodau lleol ond hefyd ar gyfer y diwydiant datblygu, ymgynghorwyr cynllunio, ymgynghoreion a rhanddeiliaid eraill. Mae'n dibynnu ar gynllunio ymlaen a meddwl yn ystyrlon am y cynigion, yn hytrach nag ar gynllunio drwy gyfrwng eithriadau ac apeliadau. Hoffai RTPI Cymru gydweithio â Llywodraeth y Cynulliad i helpu'r proffesiwn i wneud y newid diwylliant hwn a byddai'n awyddus i weld adnoddau yn cael eu neilltuo ar gyfer hyn.

Atgyfnerthu'r system gyfredol yw'r ffordd orau o sicrhau bod pobl yn cael dylanwad ar eu **cymunedau**, yn hytrach na newid y system yn radical. Nid yw llywodraeth ganolog a lleol yng Nghymru yn ynysig ac o ystyried graddfa ein Hawdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) a'r posibilrwydd o gydweithio'n agos â'r Cynulliad, gallai ACLlau hwyluso proses fwy effeithiol o ymgysylltu â dinasyddion.

Rydym yn cydnabod bod hyn yn gofyn am sgiliau cyfathrebu penodol yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r system gynllunio a chymeriad hen gymunedau, gan gynnwys cydnabod cymunedau sy'n gynyddol amrywiol

and local development interests. We therefore call for additional time and resources for engagement, for example through the strengthening of Planning Aid Wales and more intensive training for all LPA staff (policy and development management) on customer and community engagement.

Community wellbeing is a central aim of planning; planning is about communities and people - it is about shaping places and making decisions in the wider public interest. Places must be designed for the future of communities, including planning for an ageing society. **Inclusive design** is essential in achieving community wellbeing; the Design Commission for Wales is a strong promoter of inclusive and sustainable design in Wales, providing an invaluable advice and guidance resource to support planning and should be continued to be supported.

Ensure planning supports sustainable economic growth, for long term benefits

For Wales to thrive as a nation we need to make it a good place to work, as well as to live. We recognise that there is a need to emphasise the **economic** significance of all development and how planning can facilitate it sustainably, balancing environmental and social issues. The Assembly Government has commissioned a study to consider this and its findings should be considered in taking forward this agenda.

A strong and innovative planning system lies at the heart of a successful, sustainable and balanced Welsh economy giving clear direction to areas which can accommodate sustainable forms of development including renewable energy infrastructure, protecting the more sensitive environmental areas and providing a statement of confidence to future investors. This will mean making the most effective use of our urban and rural areas for appropriate development.

It is in **rural areas and the countryside** that the aims of the planning system are most often misunderstood. Land is valuable in environmental and social terms, as well as economic. For example, these areas provide valuable landscape and economic resources for supporting tourism. At a time when Wales faces increasing pressure on the countryside, planning has an essential role in striking the right balance between all these interests.

o ran eu cymeriad ethnig yng Nghymru, a buddiannau datblygu lleol. Rydym yn galw felly am fwy o amser ac adnoddau ar gyfer ymgysylltu, er enghraifft drwy atgyfnerthu Cymorth Cynllunio Cymru a chynnig hyfforddiant mwy dwys i holl staff ACLlau (o ran polisi a rheoli datblygu) ar ymgysylltu â chwsmeriaid a chymunedau.

Lles cymunedau yw un o nodau canolog cynllunio. Mae a wnelo cynllunio â chymunedau a phobl – mae a wnelo â chreu lleoedd a gwneud penderfyniadau er budd ehangach y cyhoedd. Rhaid dylunio lleoedd ar gyfer dyfodol cymunedau, gan gynnwys cynllunio ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio. Mae **dylunio cynhwysol** y hanfodol wrth gyflawni lles cymunedau; mae Comisiwn Dylunio Cymru yn mynd ati'n ddyfal i hyrwyddo dylunio cynhwysol a chynaliadwy yng Nghymru, gan roi cyngor a chyfarwyddyd hynod werthfawr i gefnogi cynllunio. Dylai'r Comisiwn yntau barhau i gael ei gefnogi.

5 Sicrhau bod cynllunio yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, er mwyn sicrhau buddion hirdymor

Er mwyn i Gymru ffynnu fel cenedl, rhaid i ni sicrhau ei bod yn lle da i weithio yn ogystal â lle da i fyw. Rydym yn cydnabod bod angen pwysleisio arwyddocâd **economaidd** unrhyw waith datblygu ac ystyried sut y gall cynllunio ei helpu i fod yn gynaliadwy, gan gydbwyso materion cymdeithasol a chymdeithasol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu astudiaeth i ystyried hyn, a dylid cymryd ei chanfyddiadau i ystyriaeth wrth fwrw ymlaen â'r agenda hon.

Mae system gynllunio gref ac arloesol wrth wraidd economi gytbwys, gynaliadwy a llwyddiannus i Gymru. Mae'n rhoi cyfeiriad clir i ardaloedd a all gymhwyso ffurfiau cynaliadwy o ddatblygu, gan gynnwys seilwaith ynni adnewyddadwy, diogelu ardaloedd amgylcheddol mwy sensitif a darparu datganiad o hyder i fuddsoddwyr y dyfodol. Bydd hyn yn golygu gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n hardaloedd trefol a gwledig ar gyfer datblygu priodol.

Yn yr **ardaloedd gwledig a chefn gwlad** y mae nodau'r system gynllunio yn cael eu camddeall fwyaf. Wrth gwrs mae tir yn werthfawr yn nhermau economaidd, ond mae iddo hefyd werth amgylcheddol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae'r ardaloedd hyn yn adnoddau gwerthfawr o ran cefnogi twristiaeth, o ran y tirlun a'r economi. Ar adeg pan welir pwysau cynyddol yn cael ei roi ar gefn gwlad Cymru, mae gan gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng yr holl fuddiannau hyn.

Review and Improve the Wales Spatial Plan to ensure the right infrastructure is in place for development

The benefits of economic growth need to be distributed across all of Wales. We must continue to recognise how the delivery of policies and programmes affects places across Wales differently. Spatial proofing of all policies and programmes would ensure their beneficial implementation within a sustainable land use planning system. The Wales Spatial Plan has a lot to commend it; England is now following our example. RTPI Cymru supports the Wales Spatial Plan and it has an important legal status. However, there is a need to reaffirm its role in implementing Assembly policies. If it is altered to a pure land use document, the spatial aspect of other Assembly policy, such as the location of major hospitals and transport infrastructure, will be lost. RTPI Cymru considers that a **comprehensive independent evaluation of the Wales Spatial Plan** is required, not just of its content but more importantly of its operation across Wales and the benefits it has achieved and recommendations for its future status and operation.

The Wales Spatial Plan can ensure we have the right **infrastructure** to support and facilitate growth. Having the right transport, housing, water, social infrastructure (such as health, education and community facilities), IT, energy infrastructure, and flood risk management in place, cannot be done without proper planning.

The proposed **Strategic Infrastructure Plan** for Wales and the Wales Spatial Plan need to be integrated and constructed in such a way that can be utilised by LDPs.

LDPs should also be allowed to facilitate routes to resourcing through S106 and the Community Infrastructure Levy (CIL).

Ensure all decisions on renewable energy projects are devolved to Wales

Currently in Wales, decisions on renewable energy projects on land over 50MW and over 100 MW offshore are taken by the UK Government, prior to the approval of the National Policy Statements from which point the Infrastructure Planning Commission process will take effect, (although the IPC system is under review). RTPI Cymru recommends that **decisions on renewable energy projects should be devolved to Wales**, as they are in Scotland and Northern Ireland. This will facilitate the ability to deliver a comprehensive renewable energy strategy in Wales.

6 Adolygu a Gwella Cynllun Gofodol Cymru er mwyn sicrhau bod y seilwaith cywir yn ei le ar gyfer datblygu

Rhaid i fuddion twf economaidd gael eu rhannu ar hyd a lled Cymru. Rhaid i ni barhau i gydnabod sut y mae'r broses o gyflwyno polisïau a rhaglenni yn effeithio ar wahanol leoedd yng Nghymru mewn gwahanol ffyrdd. Byddai gwirio'r holl bolisïau a rhaglenni o safbwynt gofodol yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd fuddiol o fewn system cynllunio defnydd tir gynaliadwy. Mae llawer i'w ganmol am Gynllun Gofodol Cymru; mae Lloegr bellach yn dilyn ein hesiampl. Mae RTPI Cymru yn cefnogi Cynllun Gofodol Cymru ac mae iddo statws cyfreithiol pwysig. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu ei rôl o ran gweithredu polisïau'r Cynulliad. Os yw'r ddogfen yn cael ei throi'n ddim mwy na dogfen defnydd tir syml, byddwn yn colli'r agwedd ofodol ar bolisïau eraill y Cynulliad, megis lleoliad ysbytai mawrion a seilwaith trafnidiaeth. Mae RTPI Cymru o'r farn bod angen **gwerthusiad annibynnol cynhwysfawr o Gynllun Gofodol Cymru**, ac er pwysiced edrych ar ei gynnwys, pwysicach fyth yw edrych ar sut y caiff ei roi ar waith ledled Cymru. Yn ogystal, rhaid edrych ar y buddion y mae wedi'u cyflwyno, ac argymhellion ar gyfer ei statws yn y dyfodol, a'r ffordd y caiff ei roi ar waith.

Gall Cynllun Gofodol Cymru sicrhau bod gennym y **seilwaith** cywir i gefnogi a hwyluso twf. Ni ellir gweithredu seilwaith cymdeithasol (gan gynnwys iechyd, addysg a chyfleusterau cymunedol), trafnidiaeth, tai, dŵr, TG, ynni, a rheoli risg llifogydd, heb gynllunio'n briodol ar eu cyfer.

Rhaid i'r **Cynllun Seilwaith Strategol** arfaethedig i Gymru a Chynllun Gofodol Cymru gael eu creu a'u hintegreiddio mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl i'r Cynlluniau Datblygu Lleol eu cymhwyso.

Dylid hefyd ganiatáu i Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) hwyluso ffyrdd o sicrhau adnoddau drwy gyfrwng S106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL).

7 Sicrhau bod yr holl benderfyniadau am brosiectau ynni adnewyddadwy yn cael eu datganoli i Gymru

Ar hyn o bryd yng Nghymru, caiff penderfyniadau am brosiectau ynni adnewyddadwy ar dir dros 50MW a thros 100 MW alltraeth eu gwneud gan Lywodraeth y DU, cyn cymeradwyaeth y Datganiadau Polisi Cenedlaethol. O'r pwynt hwnnw ymlaen, bydd proses y Comisiwn Cynllunio seilwaith ar waith, (er bod y system IPC wrthi'n cael ei hadolygu). Mae RTPI Cymru yn argymell bod **penderfyniadau am brosiectau ynni adnewyddadwy yn cael eu datganoli i Gymru**, fel sy'n digwydd yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i allu cyflwyno strategaeth ynni adnewyddadwy gynhwysfawr yng Nghymru.

Improve the health and use of the Welsh language

A distinctive and important feature of our nation is the Welsh language and spatial planning has a key role to play in improving the health and community use of the language across Wales. The Wales Spatial Plan, development planning and development management / control can all have an impact on the needs and interests of the Welsh language. National policy guidance and technical advice addresses this issue, although it is widely recognised that the guidance needs to be clarified and strengthened.

The next Assembly Government is in a good position to build on the results of the 2011 Census to strengthen planning's contribution. RTPI Cymru seeks the commitment and support of all parties to improve the health and use of the Welsh language be taken forward by the next Assembly Government as an early priority by **strengthening the policy on the Welsh Language**.

Provide resources to perform effectively for long term benefits

To achieve a high quality, citizen focused service and for the planning system to play its part in delivering community well-being, including economic recovery, the **system must be adequately resourced and supported**. The RTPI recognises that public funding is extremely pressured at the current time and for the foreseeable future, but we strongly believe that to starve the planning system of resources at this stage would lead to a less responsive system, which will be more costly to Wales in the long term. Consideration of a service such as the Planning Advisory Service in England could offer an efficient and cost effective option and should be investigated.

Training opportunities for the **upgrading of the skills of LPA officers** are essential, to ensure they are able to implement the planning system effectively and provide a high level pro-active service for communities and developers. Members of LPAs are key players in the implementation of the planning system, providing democratic accountability. They should be accorded more **investment in Member training** to assist them to operate effectively as players within the planning system. Just as professional planners are required to keep their skills and knowledge regularly updated and renewed, minimum levels of training must be a requirement for all Members serving on a Planning Committee or with Executive powers for each term of office.

8 Gwella cyflwr y Gymraeg a'r defnydd ohoni

Mae'r iaith Gymraeg yn nodwedd unigryw a hollbwysig yng Nghymru, ac mae gan gynllunio gofodol rôl allweddol i'w chwarae wrth wella cyflwr yr iaith a'r defnydd cymunedol ohoni ledled y wlad. Gall Cynllun Gofodol Cymru, maes cynllunio datblygu a maes rheoli datblygu oll effeithio ar anghenion a buddion yr iaith Gymraeg. Mae canllawiau polisi cenedlaethol a chyngor technegol yn mynd i'r afael â'r mater hwn, er y cydnabyddir yn eang bod angen i'r canllawiau gael eu hegluro a'u hatgyfnerthu.

Mae Llywodraeth nesaf y Cynulliad mewn sefyllfa dda i adeiladu ar ganlyniadau Cyfrifiad 2011 i atgyfnerthu cyfraniad y maes cynllunio. Mae RTPI Cymru yn ceisio ymrwymiad a chefnogaeth yr holl bleidiau i wella cyflwr yr iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni, ac i hyn fynd rhagddo fel blaenoriaeth allweddol gan Lywodraeth y Cynulliad drwy **gryfhau'r polisi ar yr laith Gymraeg**.

9 Darparu adnoddau er mwyn i gynllunio perfformio'n effeithiol yn hirdymor

Er mwyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac er mwyn i'r system gynllunio chwarae ei rhan wrth sicrhau lles cymunedol, gan gynnwys adferiad economaidd, **rhaid i'r system gael ei chefnogi'n ddigonol gyda'r adnoddau priodol**. Cydnabu'r RTPI fod arian cyhoeddus yn brin iawn ar hyn o bryd ac, hyd y gellir rhagweld, ar gyfer y dyfodol. Serch hyn, rydym yn credu'n gryf y byddai amddifadu'r system gynllunio o adnoddau ar hyn o bryd yn arwain at system lai ymatebol, a fydd yn fwy costus i Gymru yn yr hirdymor. Byddai ystyried gwasanaeth megis y Gwasanaeth Cynghori Cynllunio yn Lloegr yn opsiwn effeithlon a chost-effeithiol, a dylid mynd ati i ystyried hyn.

Mae'n hanfodol rhoi cyfleoedd hyfforddi i **uwchraddio sgiliau swyddogion ACLlau**, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gweithredu'r system gynllunio yn effeithiol a chynnig gwasanaeth rhagweithiol lefel uchel i gymunedau a datblygwyr. Mae aelodau Awdurdodau Cynllunio Lleol yn allweddol wrth roi'r system gynllunio ar waith, gan gynnig hefyd atebolrwydd democrataidd. Dylid rhoi mwy o **hyfforddiant buddsoddi mewn aelodau** iddynt er mwyn eu helpu i weithredu'n effeithiol o fewn y system gynllunio. Yn yr un mod dag y mae gofyn i gynllunwyr proffesiynol ddiweddaru eu sgiliau a'u gwybodaeth yn rheolaidd, rhaid i safonau gofynnol fod yn ofyniad i'r holl Aelodau sy'n gwasanaethu ar Bwyllgor Cynllunio neu sydd â phwerau Gweithredol ar gyfer bob tymor yn y swydd.

Opportunities for the effective **delivery of public services** must be exploited; studying and using good practice in UK, looking outward for innovation. Opportunities for addressing economies of scale should also be explored, such as joint LPA working, sharing of specialist skills, to ensure scarce public resources are used effectively and provide a planning service which promotes community wellbeing and does not hinder sustainable economic growth.

The devolution of **Building Regulations** provides an opportunity to consider how planning and the Building Regulations can work together effectively to support efforts on tackling climate change effects.

Retain independent examination of planning decisions and plans

RTPI Cymru firmly supports the principal of an **independent, impartial and expert body dedicated to Wales to resolve disputes** whether on planning proposals or development plans. RTPI Cymru supports the current arrangements through the Planning Inspectorate for Wales and recommends that this is retained. It is best if decisions are made and owned locally but this is not always possible especially where a locality bears the impact of nationally needed development. Some independent examination will be necessary in some cases.

Independent examination of development plans or proposals should be about seeking an impartial view on the relative merits of different approaches, within the context of a plan-led system.

Rhaid manteisio ar **gyfleoedd i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus** yn effeithiol; boed hynny'n astudio a defnyddio arferion day n y DU, neu edrych allan yn ehangach am gyfleodd i arloesi. Dylid chwilio hefyd am gyfleoedd i fynd i'r afael â darbodion maint, megis cydweithio Awdurdodau Cynllunio Lleol, rhannu sgiliau arbenigol, sicrhau bod adnoddau cyhoeddus prin yn cael eu defnyddio'n effeithiol a chynnig gwasanaeth cynllunio sy'n hyrwyddo lles cymunedol ac nad yw'n rhwystro twf economaidd cynaliadwy.

Mae'r ffaith bod **Rheoliadau Adeiladu** wedi'u datganoli yn rhoi cyfle i ystyried sut y gall cynllunio a'r Rheoliadau Adeiladu weithio gyda'i gilydd i gefnogi ymdrechion i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

10

Cadw'r drefn o arholi cynlluniau a phenderfyniadau cynllunio yn annibynnol

Mae RTPI Cymru yn gadarn o blaid egwyddor **corf annibynnol, diduedd ac arbenigol yng Nghymru i ddatrys anghydfod**, boed yn anghydfod ynghylch cynigion cynllunio neu gynlluniau datblygu. Mae RTPI Cymru yn cefnogi'r trefniadau cyfredol drwy Arolygiaeth Cynllunio Cymru ac yn argymell bod y sefydliad yn cael ei gadw. Y peth gorau yw i benderfyniadau gael eu gwneud yn lleol, ond nid yw hyn bo amser yn bosibl, yn arbennig lle bo datblygiad sydd ei angen yn genedlaethol yn effeithio ar ardal leol. Fe fydd angen arolygiad allanol mewn rhai achosion.

Wrth archwilio cynlluniau neu gynigion datblygu yn annibynnol, dylid ceisio cael barn ddiduedd ar fuddion gwahanol ddulliau o weithredu, a hynny yng nghyd-destun system a arweinir gan gynllun.

www.rtpi.org.uk/rtpi_cymru

The RTPI is a Charity registered in England 262865 and Scotland SC 037841

RTPI
mediation of space · making of place
cyd drefnu gofod · creu cynefin

Mae'r RTPI yn Elusen a gofrestrwyd yn Lloegr 262865 ac yn yr Alban SC 037841